

## Cofodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, nos Fawrth y 13eg o Fawrth 2018

1. **Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Harry Wyn Owen – Talysarn; Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Nerys Williams – Penygroes. Judith Humphreys – Cyngorhydd Sir (hwyrach ymlaen)/ **Ymddiheuriadau:** Dafydd Thomas – Nebo; Sharon Wynne Jones – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle; Dylan Herbert, Justin Davies – Penygroes; Judith Humphreys wedi ymddiheuro ymlaen llaw y byddai yn hwyr.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** OP Huws yn datgan diddordeb – eitem 9 cyfyngiadau parcio.
3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Chwefror.** Hefina yn datgan cywirdeb y cofnodion a Barry yn eilio.
4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Dim ateb gan y Comisiwn Ffiniau.
5. **Cyngorwyr Sir.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Judith, ac fe'i darllenwyd.
6. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd y taenlenni.
7. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio / Tendir llwybrau a mynwentydd.** Cydweithio – testun trafod, bocsus halen – allweddol i ardaloedd gwledig. Trafodaeth grwp cydweithio i'r posibilrwydd o'r tri cyngor ddarparu bagiau halen; Glynllifon – cyfarfod wedi ei drefnu - Cadeiryddion y 3 Cyngor, Alun Ffred Jones, 2020, Cynefin i drafod. Pryder am y llwybrau – ddim yn lwybrau cyhoeddus statudol – holi Sioned Williams Cyngor Gwynedd. Pryder am y coed – rhai yn hynafol. Cam nesaf – cyfarfod efo Cyngor Gwynedd a chyd-weithio; Eglwys Talysarn – Eglwys yn rhoi ychydig o amser i'r Cyngor Cymuned arwain ar drafodaeth – ymholiadau Cronfa Treftadaeth Loteri Cymru (Catrin Jones); RW Parry – gwneud cais am arian grant bychan Cronfa Treftadaeth Loteri Cymru am £5000.  
**Derbyniwyd copi o'r Tendir Llwbrau a Mynwentydd yn ol gan y Contractwyr llwyddiannus wedi ei lofnodi.**
8. **Cynllunio.** C18/0118/22/LL – 96 Ffordd Rhedyw – estyniad cefn - caniatâu; C17/0674/22/LL – 6 Goleufryn, Ffordd yr Orsaf, Penygroes – apel cais i godi adeilad newydd er mwyn darparu 2 fodurdy ac ystafell snwcer uwchben. Caniatâu.
9. **Gohebiaeth.**  
**\*Cyngor Gwynedd:**  
\*Ymatebion i gwynion. Siomedig iawn o dderbyn ymateb Cyngor Gwynedd parthed diogelwch y ffordd ger Ger y Llan, Llanllyfni – pwy fydd a chyfrifoldeb pe tae damwain yn digwydd? Cysylltu efo North Wales Housing a gofyn wrthyn nhw gan fod pryder mawr am ddiogelwch plant; Cyfer haearn – y Cyngor Cymuned yn parhau i bryderu fod y caead yn beryglus tasai sawdl yn mynd yn sownd.  
\*Adnabod Llecynnau Agored – cwblhawyd y cynllun – gofyn beth am y pentrefi eraill? Nebo, Llanllyfni, Talysarn, Nantlle.  
\*Cyfyngiadau parcio afraethedig – Penygroes. Cymeradwyo.
- \*Arall**  
\*Dewch i Drafod Busnes – gwahoddiad 26/3. Atgoffwyd y Cynghorwyr o'r gwahoddiad.  
\*Cylchgrawn The Clerks – ar y bwrdd.  
\*Kidney Wales – Taith Dros Fywyd – er gwybodaeth.  
\*Playground Solutions – er gwybodaeth.  
\*Un Llais – Bwletin; Biliau Aelodau ymgynghoriad; Canllaw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol; Ymgynghoriad Rhifyn 10 Polisi Cynllunio - awyrgylch hanesyddol; Ariannu cyd-drefniadau; Adroddiad y Wales Audit Office. Rhannwyd y ddogfennaeth drwy ebost – dim sylwadau.  
\*Cadw Cymru'n Daclus. Gofynwyd i'r Clerc yrru'r wybodaeth i Craig ab Iago.  
\*Diweddariad – Tomen Taldrwst. Trac wedi ei wneud, giat wedi ei gosod yn y fynedfa. Gofyn y cwestiwn os ydyn nhw wedi ymweld a phob eiddo? Beth yw'r amserlen? Pa amseroedd o'r dydd? – busnesau, ymwelwyr, a phlant yn cerdded ar hyd Lon Ddwr i'r ysgol. Pa ddarn o Lon Ddwr – Llanllyfni ynteu Tan Rallt? I ble mae'r gwastraff yn cael ei gario? Angen nodi fod angen gwyllo amser ysgol – plant yn cerdded o Maes Castell a Bro Silyn.  
\*Bocsus Halen – pwnc sy'n cael ei drafod gan y pwyllgor cydweithio.  
\*Cais am loches bws yn Talysarn – darllenwyd y cais. Does dim llochesi bws newydd yn cael eu gosod ar hyn o bryd.
10. **Panel Annibynnol Cymru – Cydnabyddiaeth Ariannol Cyngorwyr** – darllenwyd yr ohebiaeth.
11. **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol** – pecyn hyfforddiant wedi ei dderbyn. Swmpus iawn.

12. **Goleuadau Nadolig** Dylan wedi gyrru eboost o'r prisiau yr oedd wedi ei dderbyn i osod ar bolion trydan – y Cyngor yn cymerawyo. Gofyn i Dylan edrych ar leoliadau posib – (awgrym 4 yn Penygroes, 4 yn Llanlyfni?)

**13. Materion Pentrefi Penygroes** Cerbydau yn parcio rhy agos i'r grisiau at Lon Eifion wrth Wynstay, creu trafferth mynediad at y llwybr i bobl a phlant neu gi ar dennyn. Cysylltu efo Cyngor Gwynedd; Mwy o dyllau yn y ffordd wedi'r rhew diweddar; Tyllau drwg ger 50,55,57 Trem yr Wyddfa ac amryw o dyllau man – gofyn am gyfarfod safle efo Steven Williams Cyngor Gwynedd; Tyllau yn ysgwyd ceir ger y gylchfan wrth ddod o Llanlyfni; bin baw ci wrth y bont dal heb ei drwsio; Bag ysbwriel wedi ei adael wrth y bin ger y Neuadd Goffa ; ac angen ei symud; Llongyfarch disgyblion Dyffryn Nantlle am eu llwydiant yn y gystadleuaeth ffilm. Llanlyfni – lamp stryd Ffordd Rhedyw angen ei thrwsio(CabI); drain heb eu torri ac wedi gwaethygu yn tyfu drosodd i Lon yr Ysgol; Gofyn am fim baw cwn i'r pentref - awgrymu wrth lon yr Ysgol ar y railings; Coed angen eu trimio o dir y Quarry; Gofyn i Gyngor Gwynedd ail-ymweld a Lon Ddwr i asesu gor-dyfiant; Tyllau ar Lon Ddwr wrth Dolfelin.

**14. Llwybrau a Mynwentydd.** Llwybr Talysarn – coed wedi disgyn ar draws y llwybr – cysylltu efo Cyngor Gwynedd.; Tap dwr St Rhedyw wedi bod yn rhedeg, trigolyn wedi trefnu gwaith dros-dro i'w drwsio. Holi os oes costau. Harry wedi agor giatiau'r mynwentydd ar Sul y Blodau.

**15. Materion yn ymweud a'r heddlu.** Gwahodd i fynychu cyfarfod – gofyn am siaradwr Cymraeg.

#### **16. Materion ariannol**

\*Cyfranidau Pensiwn 2018-2019. Er gwybodaeth.

\*Anfonebau – A Johnson – Ffon a Rhyngwyd £25; A Johnson – derbynebau £69.60 a £17.60; Idris Lloyd Jones – gwaith llwybrau, mynwentydd ac ati 2017 i 2018 £11088 – gwiriwyd cynnwys y bil yn drylwyr a chymeradwywyd gan y Cyngor; Cyngor Gwynedd Llyfrgell £1240 (ariannu 16 awr); Dwr Cymru £106.37; Scottish Power £34.80; Scottish Power £44.92; Zurich £1339.68. Cymeradwywyd yr anfonebau – y Cyngor yn diolch i Harry am fynd o amgylch y mynwentydd ac edrych ar eu holau a'r cerrig beddi ac am gyd-lynnu efo'r Contractwyr.

\*Ceisiadau am Arian – Ffrindiau Ysgol Baladeulyn; Llys Llywelyn; Ffair Nadolig Penygroes; Apel Ambiwlans Awyr Plant. I'w trafod fis Chwefror.